I S - D D E D D F W R I A E T H

# WG22-47

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Cyfarwyddydau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Rhagfyr 2022* |
| *Yn dod i rym* | *15 Rhagfyr 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 12(3) a 204 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 15 Rhagfyr 2022.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i'r Byrddau Iechyd Lleol a ganlyn—

(a) Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan;

(b) Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr;

(c) Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro;

(d) Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg; ac

(e) Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe.

### Dehongli

**2.** Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "carchardai perthnasol" ("*relevant prisons*")

(**1**) 2006 p. 42.

yw Carchar Ei Fawrhydi Abertawe, Carchar Ei Fawrhydi Berwyn, Carchar Ei Fawrhydi Brynbuga, Carchar Ei Fawrhydi Caerdydd, Carchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi Y Parc a Charchar Ei Fawrhydi Prescoed.

**Preswylio fel arfer at ddibenion rheoliad 2(2) o Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn unrhyw un o'r carchardai perthnasol i'w drin, am gyfnod y cadw hwnnw, fel pe bai'n preswylio fel arfer yng nghyfeiriad y carchar hwnnw at ddiben rheoliad 2(2) o Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009(**1**).

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â chomisiynu gofal seiciatrig mewn ysbyty at ddibenion symud person sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn carchar i ysbyty o dan adran 47 neu 48 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**2**).

**Dirymu**

**4.** Mae Cyfarwyddydau i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2017(**3**) wedi eu dirymu.



Tracey Breheny, Dirprwy Gyfarwyddwr am Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Bregus, Llywodraeth Cymru, o dan awdurdod y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, un o Weinidogion Cymru
13 Rhagfyr 2022

(**1**) O.S. 2009/1511 (Cy. 147).
(**2**) 1983 p. 20.
(**3**) 2017 (Cy. 10).